Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub

Adroddiad gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru

Hydref 2014

ISBN digidol 978 1 4734 2955 0
© Hawlfraint y Goron 2015
WG24318

## Rôl Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru

Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

(*Nid yw'r testun isod ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.*)

Section 28 Inspectors

(1) Her Majesty may by Order in Council appoint inspectors, and the Secretary of State may appoint assistant inspectors and other officers, for the purpose of obtaining information as to—

(a) the manner in which fire and rescue authorities are discharging their functions;

(b) technical matters relating to those functions

Lee Howell QFSM FiFireE yw Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru ar hyn o bryd.

# 1.0 Trosolwg

1.1 Mae cyfoeth o wybodaeth ar gael i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar hyn o bryd i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud ag arbedion ychwanegol posibl. Mae sawl enghraifft o'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n dangos bod cynnydd wedi'i wneud o ran paru adnoddau â risgiau a lleihau'r costau i'r gymdeithas ar yr un pryd.

1.2 Fodd bynnag, o ystyried maint yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu, bydd yn dod yn fwyfwy pwysig sicrhau bod costau'n parhau i ostwng a bod gwahanol ffyrdd o weithio'n cael eu hystyried, a hynny ar sail arweiniad proffesiynol a gwleidyddol i wneud penderfyniadau a fydd yn aml yn rhai anodd. Ar yr un pryd, bydd y risgiau'n parhau i newid wrth i dueddiadau demograffig ennill eu plwyf a bydd y galw am Wasanaeth Tân ac Achub hyblyg sy'n gallu ymateb i anghenion y gymdeithas yn parhau.

1.3 Mae'n hollbwysig arloesi a bod yn barod i edrych allan ac i ddysgu gan eraill. Er enghraifft, mae'n werth pwyso a mesur ymhellach y rhesymau pam fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn costio £43 i bob person yng Nghymru ond dim ond £38 i bob person yn Lloegr. Bydd data meincnodi o gymorth i bennu'r meysydd i ganolbwyntio mwy arnynt yn lleol.

1.4 Nid yw'r adroddiad hwn yn pennu camau gweithredu penodol. Nid yw ychwaith yn pennu costau gweithredu penodol ar gyfer unrhyw Wasanaeth Tân ac Achub penodol. Mater i'r Awdurdodau Tân ac Achub (yr Awdurdodau Tân) yw hwn, gan ymgynghori â'r cyhoedd. Serch hynny, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai materion y gall fod yn ddefnyddiol eu hystyried i helpu i leihau costau ac mae'n crynhoi mewn un man nifer o ffynonellau cyngor sydd eisoes ar gael. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ei gweld ac fe'i darperir i roi mwy o wybodaeth gefndir i'r Gweinidog am y meysydd y gellir disgwyl i'r Awdurdodau Tân eu hystyried, hyd yn oed os na fyddant yn eu rhoi ar waith.

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod arbedion sylweddol eisoes wedi'u gwneud ac mae hefyd yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol gwaith ataliol y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r gymdeithas.

1.6 Yr Awdurdodau Tân, gyda chymorth y Prif Swyddogion Tân, sy'n gyfrifol am reoli arian, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb dilys o hyd mewn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru'n effeithiol ac yn effeithlon.

1.7 Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Cymru yw'r dull a ddefnyddir i amlinellu'n ffurfiol yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae’r fersiwn nesaf wrthi’n cael ei llunio. Bydd yn cynnwys y prif elfennau a nodir yn yr adroddiad hwn, fel y disgwyliadau o ran gwerth am arian a meincnodi.

## 2.0 Cyflwyniad

2.1 Yng nghyfarfod cyntaf y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub, gofynnwyd am adroddiad ynghylch y meysydd lle y byddai modd i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd.

2.2 I'r perwyl hwn, mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar y meysydd y mae'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu hystyried er mwyn lleihau'r gost o ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnal neu wella'r canlyniadau i'r cyhoedd ar yr un pryd.

2.3 Er bod cyd-destun Lloegr a'r Alban yn wahanol i Gymru, cafodd profiadau'r gwledydd hynny eu hystyried. Cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Mae sefydliadau blaengar sy'n perfformio at safon uchel yn ceisio dysgu gan eraill ac yn canolbwyntio'n barhaus ar wella.

2.4 Bwriedir i'r adroddiad hwn ategu rhywfaint o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi meysydd eraill i'w hystyried yn lleol. Dylid ei ystyried fel adroddiad sy'n ategu'r gwaith yn hytrach na'i gyfarwyddo, a hynny drwy gefnogi'r newid sydd eisoes ar droed yn ogystal â chynnig her adeiladol.

2.5 Mae'r Llywodraeth yn barod i fynd ati i gynorthwyo'r Awdurdodau Tân i gyflwyno rhagor o newidiadau lle y mae modd iddi wneud hynny.

## 3.0 Cyd-destun y gwasanaeth tân ac achub modern

3.1 Mae llawer y gall Awdurdodau Tân Cymru ymfalchïo ynddo. O graffu ar newidiadau diweddar i gynnal y gwasanaeth a lleihau'r costau ar yr un pryd, gallwn weld enghreifftiau o arweiniad proffesiynol a gwleidyddol. Mae'r Awdurdodau Tân ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru hefyd yn dechrau trafod ffyrdd o wella effeithlonrwydd ymhellach a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.

3.2 Yn gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i fod yn wasanaeth cyhoeddus cymharol isel ei gost ac uchel ei barch o'i gymharu â llawer o'r gwasanaethau llywodraeth leol eraill. Mae'n barod i ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd ehangach y mae'n gweithredu ynddo ac mae'n addasu ei ddulliau o weithredu i ateb gofynion y rheini y mae'n ceisio dylanwadu arnynt yn y ffordd orau.

3.3 Mae pobl yn fwy diogel nawr nag erioed o'r blaen, a hynny'n rhannol oherwydd bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn canolbwyntio mwy ar waith ataliol, ond hefyd o ganlyniad uniongyrchol i newidiadau cymdeithasol a chyfreithiol sy'n golygu bod llai o bobl bellach yn smygu, bod mwy o bobl yn berchen ar synwyryddion mwg a bod rheoliadau wedi'u cyflwyno ynghylch dodrefn wedi'u llenwi â sbwng, ymhlith newidiadau eraill.

3.4 Mae rôl y diffoddwr tân wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn hytrach na dim ond ymateb i ddigwyddiadau er mwyn diffodd tanau neu achub pobl, mae rôl y diffoddwr tân wedi newid mewn ffordd sylfaenol ac mae bellach yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â phobl o wahanol oed a chefndiroedd, gan ddarparu cymorth a chyngor iddynt a'u hatgyfeirio at asiantaethau eraill yn ôl y gofyn.

3.5 Yng Nghymru, mae cyfanswm y digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd iddynt wedi gostwng 32% dros y degawd diwethaf. Mae ymchwil yn dangos ei bod yn debygol mai ymateb i ddigwyddiadau meddygol ac achub pobl o ddŵr fydd meysydd twf y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, gan weithio fel rhan o ymateb amlasiantaeth.

3.6 Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithredu mewn amgylchedd cynyddol anodd yn y dyfodol. Bydd angen parhau i wneud dewisiadau anodd ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio pennu rhai elfennau y gall fod yn fuddiol eu hystyried ymhellach wrth i'r Awdurdodau Tân reoli'r gwasanaeth gyda llai o arian, gan gynnal neu wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ar yr un pryd. Gan fod y costau sy'n gysylltiedig â'r cyflogeion yn cyfrif am tua 80% o'r holl gyllidebau refeniw, mae'n werth datgan na fydd hi ond yn bosibl cyflawni arbedion sylweddol

drwy weithredu gyda llai o staff a/neu drwy newid y trefniadau ymateb i argyfyngau, gan baru'r adnoddau â'r risg.

3.7 Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n gwario tua £150m y flwyddyn ar ddarparu ystod eang o wasanaethau i wella diogelwch y cyhoedd.

3.8 Nid yw grant y llywodraeth ganolog yng Nghymru ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gostwng i'r un graddau â Lloegr. Yn wir, mae'r Gwasanaeth yn cael ei ariannu'n wahanol i'r Gwasanaeth yn Lloegr a'r Alban. Er bod lefelau'r arbedion sydd eu hangen yn wahanol, mae'r angen i sicrhau gwerth am arian yn parhau i fod yr un fath. Pan fydd cyfle i berfformio at yr un safon neu at safon uwch am lai o arian, dylid achub ar y cyfle hwnnw. Nid oes rhaid i unrhyw gamau i ddiwygio'r gwasanaeth fod yn gyfystyr â chamau i gwtogi'r gwasanaeth.

3.9 O ganlyniad i'r angen i fodloni heriau ariannol sylweddol yn Lloegr, mae llawer o'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi ailddylunio'u gwasanaethau i adlewyrchu'r newidiadau i'r risg leol, a hynny oherwydd bod rhaid iddynt weithredu â llai o arian. Mae llawer o'r newidiadau a gyflwynwyd hefyd yn lleihau gwastraff a dyblygu ac felly mae'r Gwasanaethau'n fwy effeithlon. Maent yn arloesi mwy ac yn meddwl yn fwy creadigol gan fod rhaid iddynt weithredu'n wahanol. Mae llawer y gellir ei ddysgu o hyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Lloegr, gan gydnabod bod gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru lawer i'w gyfrannu at y drafodaeth hefyd.

3.10 O ystyried y pwysau ariannol yr ydym yn ei wynebu yn awr a'r pwysau ariannol y byddwn yn ei wynebu yn y dyfodol, bydd angen parhau â'r ymdrech ddi-baid i leihau gwariant y Gwasanaeth Tân ac Achub heb beryglu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd. Mae gweithredu ar y cyd yn allweddol bwysig, nid dim ond rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub ond hefyd ar draws yr holl wasanaethau brys.

## 4.0 Yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru

4.1 Gofynnwyd i'r tri Gwasanaeth ddarparu gwybodaeth i osod sylfaen ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adran hon yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r manylion penodol i'w gweld yn Atodiad A.

4.2 Bu i Wasanaeth y Canolbarth a'r Gorllewin ddatgan ei flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cydweithredu, arloesi, defnyddio'i asedau a'i adnoddau'n well, a gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

4.3 Mae Gwasanaeth y De wedi newid systemau sifft a chau gorsafoedd tân ac mae'n dechrau ystyried defnyddio dulliau systemau darbodus i gynllunio'r gwasanaeth tân at y dyfodol.

4.4 Croesewir hyn. Mae'n dangos bod parodrwydd i barhau i fwrw ymlaen â'r agenda newid a gwella, gan leihau costau a pharhau i ganolbwyntio ar y gwasanaeth a ddarperir ar yr un pryd.

<u>Lleihau'r galw</u>

4.5 Mae adroddiad y 'Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus' (Williams 2014) yn tynnu sylw at waith y Gwasanaeth Tân ac Achub i leihau nifer y tanau a'r anafusion sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at '[yr] ymdrechion helaeth y mae'r tri gwasanaeth wedi'u gwneud i addysgu pobl am ddiogelwch tân a'r camau sylfaenol y dylent eu cymryd os bydd tân. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar atal, ac ar weithio gyda chymunedau i sicrhau canlyniadau buddiol'.

4.6 Drwy leihau'r risg a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r risg honno, gwnaed rhywfaint o arbedion ar sail gweithgareddau'r gwasanaeth, a hynny oherwydd iddo ymateb i lai o ddigwyddiadau gan fod y galw am wasanaethau ymatebol wedi lleihau.

4.7 Mae'n bwysig sylweddoli bod y risg o dân mewn cymuned yn seiliedig ar gyfuniad o lawer o newidynnau. Er enghraifft, mae amddifadedd cymdeithasol, tlodi, teuluoedd un rhiant, poblogaeth sy'n heneiddio, camddefnyddio cyffuriau/alcohol/sylweddau, a gofal iechyd meddwl i gyd yn ffactorau sy'n dylanwadu ar y risg o dân. Mae cyfrif gwir gost tân i'r gymdeithas yn gymhleth, ac mae'n cynnwys colledion wedi'u hyswirio, colledion heb eu hyswirio, costau'r Awdurdod, colledion busnes, a chostau'r sector cyhoeddus ymhlith ffactorau eraill.

4.8 Gellir priodoli llwyddiant Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru o ran lleihau nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân dros y 10 mlynedd diwethaf yn rhannol i'r mentrau ataliol. Cafodd y rheini, yn eu tro, eu hwyluso gan y partneriaethau a'r cysylltiadau gwaith cryf y mae'r Gwasanaethau wedi'u meithrin â'i gilydd a sefydliadau eraill. Drwy i'r awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd, cytuno ar amcanion a chanlyniadau a rennir a chyfuno adnoddau, cydnabyddir bod modd iddynt gyflawni cryn dipyn yn fwy nag y gallant yn unigol. Mae hwn yn waith prif ffrwd erbyn hyn yn hytrach na gwaith ychwanegol.

4.9 Mae cyfraniadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub at raglenni Trechu Trais Domestig, rhaglenni Ymyriadau Ieuenctid fel 'Ffenics' a 'Troseddau a Chanlyniadau' a rhaglenni Diogelwch ar y Ffordd yn helpu i greu cymdeithas fwy diogel ac fe allai'r cyfan leihau'r gost i'r gymdeithas. Mae gwaith gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn dangos bod y gost i'r gymdeithas dros y deg mlynedd diwethaf o gael llai o danau, marwolaethau ac anafiadau yn gyfwerth â chyfanswm o tua £294m (£256m o ran atal difrod tân, £37m o ran lleihau nifer yr anafusion yn sgil tân ac £1.2m o arbedion o ran costau cyflogau ar alwad oherwydd lleihad yn nifer yr ymatebion).

4.10 Ni ellir priodoli'r holl arbedion hyn yn uniongyrchol i waith y Gwasanaeth Tân ac Achub gan fod newidiadau i'r ddeddfwriaeth a thueddiadau cymdeithasol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Bydd angen parhau i ragfynegi'r tueddiadau sydd ar y gorwel, fel effaith y cynnydd yn nifer y bobl dros 65 oed yng Nghymru ar y Gwasanaeth. Gan fod pobl yn byw'n hirach ac yn fwy annibynnol, bydd y galw am ymyriadau meddygol yn y cartref (llithro, baglu a chwympo) yn cynyddu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth bod yr ymdrech a'r gweithgareddau i atal digwyddiadau, y ffocws arno a'r lleihad yn y galw o ganlyniad iddo wedi cael effaith sylweddol. Mae ymrwymiad y Gwasanaeth Tân ac Achub i leihau'r galw a'r arweiniad a gafwyd ganddo'n esiampl i'w chymeradwyo i'r gwasanaethau cyhoeddus eraill.

4.11 Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn nodi'r hyn a ganlyn: "Accurately estimating the cost on society of fire related incidents and the value of the FRSs prevention work is complex. Factors such as better building regulation, more socially responsible citizens and fewer smokers to name some examples, will all have played a part in reducing incidents of fire. There can be no doubt however that the role of the FRS has been a significant factor. More work should be carried out to help better evidence this".

<u>Lleihau costau</u>

4.12 Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi lleihau'u costau. I wneud hynny, mae angen arweiniad gwleidyddol a phroffesiynol.

4.13 Ers 2005, mae Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £6.4m. Gwnaeth hyn drwy leihau 137 o staff mewn gorsafoedd (27%), a hynny drwy newid y lefelau criwio heb effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae hefyd wedi gwella'r prosesau busnes gan gynnwys y broses gaffael, diwygio'r drefn o ymateb i larymau tân awtomatig a galwadau i achub anifeiliaid, lleihau lefelau staffio'r uwch reolwyr (34%) a hwyluso ymddeoliadau cynnar staff cymorth, yn ogystal ag adolygu'r ddarpariaeth o beiriannau tân arbenigol.

4.14 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrthi'n cyflawni ei adolygiad o gwmpas y gwasanaeth tân a fydd yn arwain at gau gorsafoedd tân ac at rai diswyddiadau gorfodol a fydd yn sicrhau arbedion. Mae eisoes wedi cyflwyno newidiadau i'r lefelau staffio gweithredol, yn ogystal â niferoedd y swyddogion a'r staff cymorth. Mae wedi lleihau goramser ac adleoli peiriannau arbenigol a'r timau cysylltiedig. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £6.7m ers 2010/11. Ymhellach, mae pob swyddogaeth wrthi'n cael ei hadolygu gan ddefnyddio syniadaeth ddarbodus. Dylai'r rhaglen hon, 'Llunio ein Dyfodol' arwain at ragor o arbedion effeithlonrwydd.

4.15 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi arbed £2.4m ers 2011 drwy leihau ei gyllidebau, gan gynnwys nifer y swyddogion, a thrwy newid y ffordd y mae'n pennu'r lefelau staffio ar gyfer staff sy'n gweithio sifftiau.

<u>Effeithlonrwydd ar y cyd</u>

4.16 Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni arbedion ar draws Cymru gyfan. Mae adroddiad diweddaraf y Pwyllgor yn dangos bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud mewn meysydd cydweithredol allweddol, gan gynnwys trefniadau criwio cenedlaethol, trefniadau rheoli cenedlaethol, platfformau TGCh cenedlaethol, gwasanaethau diogelwch cymunedol a gwasanaethau caffael. Mae'r Pwyllgor yn amcangyfrif bod oddeutu £2.5m wedi'i arbed rhwng 2012 a 2014 (sylwer mai osgoi costau yw rhai o'r arbedion hyn).

4.17 Mae gwaith a bennwyd gan y Pwyllgor (Hydref 2014) yn dangos bod tua £1.2m o arian uniongyrchol yn cael ei arbed bob blwyddyn o ran y gyllideb refeniw 'ar alwad' (diffoddwyr tân rhan-amser) (ar y sail bod £174 yn cael ei arbed bob tro y mae'r gwasanaeth yn ymateb).

4.18 O newid polisïau gweithredol, fel dim ond mynd i achosion lle y cafodd tân ei gadarnhau neu ddim ond ymateb i larymau tân awtomatig ar safleoedd uchel eu risg, bydd modd cyflawni mwy o arbedion. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub mewn mannau eraill wedi mabwysiadu dulliau o'r fath ac, er y gall fod rheswm da pam na fydd hyn yn gweithio mewn rhai rhannau o Gymru, y prif bwynt yw y bydd yn bwysig dadansoddi pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir wrth i'r cyllidebau dynhau.

4.19 Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru hefyd yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys camau i ddatblygu Canolfan Adnoddau Ambiwlans a Thân yn Wrecsam a thri chynllun peilot yn y De lle y mae swyddogion tân yn ymateb ar unwaith i alwadau meddygol pan fydd bywyd yn y fantol. Mae Prif Swyddogion Tân Gwasanaeth y Canolbarth a’r Gorllewin a Gwasanaeth y De hefyd wrthi’n pwyso a mesur cyfleoedd eraill i wella canlyniadau ac i gyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

4.20 Bu i’r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus argymell y dylai’r sector cyhoeddus wneud llawer mwy i rannu gwasanaethau cymorth. Mae prosiect y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus1 yn esiampl dda o’r ffordd y mae’r Gwasanaethau’n ymateb i’r her. Mae’n werth nodi’n arbennig yr adolygiad o’r modelau staffio a’r camau tuag at fodel o ddarparu adnoddau ar sail y galw. Byddant yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella perfformiad.

[1] Mae’r prosiect hwn yn uno Ystafelloedd Rheoli Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac yn symud y tîm newydd i ystafell rheoli achosion brys Heddlu De Cymru ym Mhencadlys Heddlu De Cymru.

## 5.0 Meysydd lle y gallai'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru gyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd

Lleihau'r galw

5.1 Mae lleihau'r galw am ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn hollbwysig i wella diogelwch y cyhoedd ac i leihau costau. Mae'n gwneud synnwyr ariannol a moesegol i wella diogelwch y cyhoedd drwy leihau'r galw ar y gwasanaethau ymateb drwy roi mwy o bwyslais ar waith ataliol.

5.2 Mae gwaith ataliol bellach yn waith prif ffrwd (ac yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 2004). Gellir priodoli'r cynnydd hwn i arweiniad proffesiynol y Prif Swyddogion Tân gyda chefnogaeth yr Awdurdodau Tân. Mae'r gwaith hwn wedi gwneud gwir wahaniaeth i'r gymdeithas gyfan. Drwy leihau'r galw, gellir lleihau'r costau mewn sawl maes. O gael llai o alwadau brys, mae'r injans tân yn ymateb yn llai aml ac mae nifer y taliadau i staff 'ar alwad' (ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub hynny sy'n defnyddio model Talu Fesul Tro) yn lleihau, yn ogystal â'r costau tanwydd a'r costau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Gwybodaeth am lefelau gweithgarwch a gwariant cymharol

5.3 Mae meincnodi gwybodaeth am wariant a pherfformiad yn ddull anhygoel o bwerus y gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i lywio penderfyniadau rheoli a phenderfyniadau gwleidyddol. Yn ddiweddar, darparwyd data CIPFA i'r Awdurdodau Tân at ddibenion meincnodi.

5.4 P'un a ydynt yn defnyddio data CIPFA neu unrhyw set ddata arall, mae'n fuddiol defnyddio meincnodau allanol i bennu meysydd lle y mae'r ddarpariaeth yn ormodol neu'n annigonol. Gall fod sawl rheswm dilys pam fod 'allanolynnau' yn ymddangos. Y prif bwynt yw bod pob agwedd ar y busnes yn cael ei adolygu. Pan fydd cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol, i wella'r canlyniadau ac i leihau'r costau, dylid eu hystyried ochr yn ochr â rhesymau clir dros wneud y penderfyniadau hynny ai peidio, fel y bo'n briodol.

Cyllidebu ar sail sero

5.5 Mae llawer o'r Gwasanaethau'n adolygu'u cyllidebau ar sail sero. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, eu bod yn cychwyn gyda sail gyllido o sero ac yn ychwanegu'r gost o gyflawni gwahanol weithgareddau, gan ddefnyddio proses o'r gwaelod i fyny o gyflawni amcanion corfforaethol. O wneud hyn, gellir pennu'r meysydd hynny lle y mae'r ddarpariaeth yn ormodol neu'n annigonol. Yn aml, bydd arbedion yn dod i'r amlwg.

5.6 Mae’r dull hwn yn wahanol i’r dull a ddefnyddir yn hanesyddol i bennu cyllidebau’r awdurdodau lleol, lle y mae cyllideb y flwyddyn flaenorol yn cael ei defnyddio’n awtomatig fel man cychwyn a’i chynyddu neu’i gostwng yn ôl y gofyn. Er enghraifft, bu i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford ddefnyddio’r dull nhw i bennu cyllideb 2013/14 a chynnwys yr holl ddeiliaid cyllideb yn y broses.

Ailddylunio’r broses fusnes

5.7 Mae Gwasanaethau eraill yn defnyddio dull ‘systemau darbodus’ lle y caiff pob un o elfennau’r broses ei adolygu. Yn aml, bydd prosesau mewnol yn troi’n rhy gymhleth a biwrocrataidd dros gyfnod. O ddefnyddio dull systemau darbodus, gellir pennu’r gweithgareddau diangen, ac o fynd ati i ailddylunio’r prosesau busnes, gellir cyflawni arbedion yn aml.

5.8 Mae’r archwilwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn i Wasanaeth Tân Achub Swydd Derby am iddo gyflawni adolygiad cynhwysfawr i fapio gwerth ar draws y gwasanaeth. Ar sail yr adolygiad hwn, bu modd iddo flaenoriaethu’r meysydd hynny lle y gall ddefnyddio’i ddull chwe sigma darbodus. I ategu’r adolygiad hwn, mae’r Gwasanaeth hefyd wedi llunio model i drawsnewid y dull o ddarparu gwasanaethau ac mae wedi rhoi hyfforddiant i dros 130 o staff ynghylch y prif egwyddorion.

Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol

5.9 Mae’r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn dal i ystyried meysydd lle y gellir cyflawni rhagor o arbedion drwy gydweithio. Yn ei adroddiad blynyddol cyntaf (25 Hydref 2013), cyhoeddodd y Pwyllgor fod ychydig dros £3.1 miliwn o arbedion effeithlonrwydd wedi’u pennu hyd yma ac y byddant yn cael eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn ychwanegol at yr arbedion a gyflawnwyd gan bob un o’r tri awdurdod wrth iddynt bennu’u cyllidebau nhw.

5.10 Mae gweithgareddau cefn swyddfa a gweithgareddau cysoni eraill a wnaed yn Lloegr yn dangos bod modd i ddau Wasanaeth Tân greu arbedion o £1.7m y flwyddyn drwy ddefnyddio un syniadaeth gyfarwyddo. Er nad yw esiampl Dyfnaint a Gwlad yr Haf yn cymharu’n uniongyrchol, mae’n darlunio maint yr arbedion y gellir eu cyflawni pan fydd ‘dau wasanaeth’ yn gwneud pethau yn yr un ffordd yn hytrach nag ar wahân.

Ystyried adroddiadau blaenorol ynghylch effeithlonrwydd

5.11 Bydd yn bwysig bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru’n ystyried adroddiadau blaenorol am feysydd lle y gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd. Adroddiad y Comisiwn Archwilio ac adroddiad Syr Ken Knight (cyn-Brif Gynghorydd Tân ac Achub Lloegr) yw’r adroddiadau mwyaf cynhwysfawr. Cymerwyd misoedd lawer i’w llunio ac maent yn seiliedig ar waith ymchwil sylweddol ac ar ymweliadau

safle. Er bod yr adroddiadau hyn wedi'u llunio yng nghyd-destun Lloegr, mae llawer ynddynt sy'n werth ei ystyried. Isod, nodir prif elfennau'r adroddiadau.

## 6.0 Adroddiadau blaenorol ynghylch effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub

6.1 Yn y gorffennol agos, gwnaed cryn dipyn o ymchwil i effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub. Er bod rhai o'r adroddiadau wedi dyddio erbyn hyn, gall fod yn werth ystyried llawer o'r egwyddorion sy'n sail i'w hargymhellion. Ceir crynodeb o'r adroddiadau hyn isod.

***Y Comisiwn Archwilio - Improving fire and rescue authority efficiency. Auditors' 2010/11 local value for money audit work***

6.2 *Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio, 'Rising to the challenge', yn pwyso a mesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Awdurdodau Tân Lloegr ac yn awgrymu ffyrdd o wneud arbedion heb beryglu diogelwch. Mae'n herio'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ddefnyddio'u gweithluoedd a'u hadnoddau eraill yn fwy effeithiol i wella perfformiad ac i leihau costau.*

6.3 *Canfu'r adroddiad y gallai'r Awdurdodau Tân gyflawni arbedion effeithlonrwydd o rhwng £160 - £200 miliwn (10 y cant o holl wariant yr Awdurdodau Tân) drwy gwtogi ar nifer y galwadau diangen a'r absenoldebau salwch, gwella'r trefniadau caffael a chydweithredu, newid y trefniadau criwio a darparu gwasanaeth diogelwch tân cymunedol ar y cyd.*

6.4 *Er bod rhai o'r Awdurdodau Tân wedi cyflawni arbedion ers 2008, mae mwyafswm helaeth y potensial i arbed arian yn parhau. Yn wyneb toriadau o 13 y cant yng ngwariant yr Awdurdodau Tân rhwng 2010/11 a 2014/15, mae'r Awdurdodau Tân yn dal i fod o dan bwysau i arbed arian.*

6.5 *Mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Awdurdodau Tân:*

- *eu herio eu hunain a'u Prif Swyddogion Tân i wella effeithlonrwydd a pherfformiad;*
- *arwain eu cymunedau drwy wneud penderfyniadau anodd sy'n effeithio ar lefelau staffio a'r modd y caiff staff eu defnyddio i sicrhau eu bod yn effeithlon;*
- *sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth gywir i gyfiawnhau'r penderfyniadau hynny;*
- *ac amddiffyn penderfyniadau ar wariant yn gyhoeddus.*

6.6 *Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai'r Prif Swyddogion Tân:*

- *anelu at fodloni targedau'r llywodraeth ar gyfer arbedion, neu ragori arnynt, drwy wella effeithlonrwydd*

*pennu manteision unrhyw fentrau i'r gymuned ehangach a buddsoddi ynddynt yn unol â'u gwerth*
*mabwysiadu syniadau da i wella effeithlonrwydd oddi wrth Awdurdodau Tân eraill, neu'u haddasu i'w hamgylchiadau nhw*
*mynd ati'n systematig i bwyso a mesur yr opsiynau i gydweithio â gwasanaethau tân ac achub cyfagos a chanolbwyntio ar y rheini sy'n cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf*
*a gwella gallu'r rheolwyr ar bob lefel i reoli newid.*

6.7 http://www.audit-commission.gov.uk/technicaldirectory_old/Localsavingsreviewguide201011_fire.pdf

6.8 *O ran gwariant yr Awdurdodau Tân, cynhaliodd Syr Ken Knight adolygiad yn 2013 sy'n nodi nifer o feysydd lle y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyffredinol ystyried cyflawni enillion effeithlonrwydd. Fe'u dangosir isod. Bydd rhaid penderfynu'n lleol i ba raddau y mae'r rhain yn berthnasol i unrhyw Awdurdod penodol ond, yn gyffredinol, o leihau gweithgaredd, dylai fod modd lleihau elfen o'r gost. Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd lefel de minimis gan fod yr Awdurdodau'n dyrannu adnoddau ar sail risg ac nid o reidrwydd ar sail galw.*

***Adroddiad 'Facing the future – findings from the review of efficiencies and operations in fire and rescue authorities in England' (Mai 2013)***

6.9 *Pennod un: Beth yw effeithlonrwydd a pha mor effeithlon yw'r gwasanaethau tân ac achub a ddarperir yn Lloegr?*

*Mae marwolaethau yn sgil tân yn y cartref ar eu lefel isaf erioed. Cafwyd gostyngiad o 40 y cant yn nifer y digwyddiadau dros y degawd diwethaf, ond mae'r gwariant a nifer y diffoddwyr tân wedi aros yr un fath at ei gilydd. Mae hyn yn awgrymu bod lle i ad-drefnu a chyflawni arbedion effeithlonrwydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydweddu'n well â'r cyd-destun presennol o ran risg ac ymateb. Mae rhai awdurdodau tân ac achub yn gwario bron i ddwywaith cymaint y person y flwyddyn mewn rhai ardaloedd nag eraill, ond nid yw'n ymddangos bod fawr ddim cysylltiad rhwng gwariant a chanlyniadau. Pe bai pob un o'r awdurdodau sy'n gwario mwy na'r cyfartaledd yn lleihau'i wariant hyd at y cyfartaledd, byddai modd arbed £196 miliwn y flwyddyn.*

6.10 *Pennod dau: Defnyddio adnoddau*

*Mae'r awdurdodau tân ac achub wedi mynd ati i'w trawsnewid eu hunain o fod yn sefydliadau sy'n ymdrin â thanau i fod yn sefydliadau sydd hefyd yn cyflawni gwaith ataliol a gwaith achub ehangach, ac maent wedi llwyddo i leihau nifer y digwyddiadau. Yn awr, mae angen iddynt fynd ati i'w trawsnewid eu hunain eto mewn cyfnod lle y mae'r risg a'r galw'n hollol wahanol. Yn y dyfodol, rhaid*

*canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau rheng flaen. Nid yw hyn yn gyfystyr ag agwedd ddiffynaethol tuag at swyddi. Yn aml, bydd aelodau etholedig a swyddogion yn canolbwyntio ar osgoi diswyddo, cau gorsafoedd neu gwtogi ar nifer y peiriannau tân, a cheir tystiolaeth anecdotaidd fod y Prif Swyddogion Tân yn hunansensora rywfaint. Mae ymdrech yn cael ei gwneud i ddefnyddio modelau criwio a staffio blaengar, ac mae rhywfaint o dystiolaeth eu bod yn cael eu rhannu – ond nid oes fawr ddim tystiolaeth bod ardaloedd yn gweithredu'r hyn y maent yn ei ddysgu gan ardaloedd eraill. O sicrhau cynnydd o 10 y cant yn unig yng nghyfanswm y diffoddwyr tân 'ar alwad' yn genedlaethol (i 40 y cant), byddai modd arbed hyd at £123 miliwn y flwyddyn.*

6.11 *Pennod tri: Cydweithio i sicrhau effeithlonrwydd*

*Nid yw'n synhwyrol cael model cyflenwi sy'n cynnwys 46 awdurdod tân ac achub, a phob un ohonynt â gwahanol strwythurau llywodraethu, gwahanol uwch arweinwyr a gwahanol nodweddion trefniadol a gweithredol. Gall uno awdurdodau fod yn ateb, ond nid yw gwleidyddion lleol yn awyddus i wneud hyn ac nid oes cymhelliad iddynt uno.*

*Mae llawer o waith yn cael ei ddyblygu o ran dylunio, comisiynu a gwerthuso cynnyrch tân-benodol. Mae angen meithrin mwy o ymddiriedaeth rhwng yr awdurdodau i sicrhau bod modd rhannu syniadau da a thechnoleg brofedig yn gyflym.*

*Yr her i'r awdurdodau tân ac achub yw derbyn bod angen i bob un ohonom fod yn barod i dderbyn nad oes modd addasu popeth i ateb ein gofynion unigol, a hynny er mwyn rhyngweithredu. Yn ystod yr adolygiad hwn, rwyf wedi gweld nad yw'r awdurdodau tân ac achub yn barod i gymryd y cam hwn eto – ond rwy'n gweithio y byddant yn barod i fod yn fwy ymarferol yn y dyfodol.*

*Mae'r gwasanaeth yn cydweithio, yn cydymateb ac yn cydleoli â'r gwasanaethau golau glas eraill a gellir sicrhau effeithlonrwydd drwy gydgrynhoi asedau'r sector cyhoeddus yn ogystal â chydweithio'n agosach. Ond mae'r cynnydd yn dameidiog ac mae'n cael ei lywio neu'i lesteirio gan gysylltiadau lleol.*

6.12 *Pennod pedwar: Llywio effeithlonrwydd*

*Y penderfyniadau i ostwng cyllid y llywodraeth ganolog ac i rewi refeniw'r dreth gyngor yw'r prif ffactorau sy'n llywio newid. Mae'r gwasanaethau tân ac achub yn gwario'n unol â'u cyllidebau ac nid yn unol â risg. Un o'r prif bethau y mae'n rhaid i'r llywodraeth ei ystyried yw sut i ddefnyddio'r cyllid i gymell mwy o newid.*
*Mae cronfeydd wrth gefn yr awdurdodau tân ac achub wedi cynyddu o ychydig dros £200 miliwn i dros £400 miliwn yn 2008-2012. Mae'r lefelau hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (gan gynnwys yr heddlu). Dylid cadw*

*cronfeydd wrth gefn darbodus, ond cafodd y cyllid ei ostwng mwyfwy tua diwedd y cyfnod i sicrhau bod modd i'r awdurdodau fuddsoddi i drawsnewid y gwasanaeth – dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i fuddsoddi mewn prosiectau gwario i arbed.*

*Mae angen mwy o gymorth a gwybodaeth ar Aelodau'r Awdurdodau i sicrhau bod modd iddynt roi'r arweiniad cadarn sydd ei angen i lywio effeithlonrwydd. Mae'r trefniadau i graffu ar yr awdurdodau a'r gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol, ac mae rhai'n fwy cadarn na'i gilydd. Rhaid i'r Aelodau Etholedig sicrhau bod pobl leol yn deall y gwasanaeth a rhaid iddynt annog trafodaeth wybodus am newid.*

*Mae angen mwy o arweiniad ar y sector i gyflwyno diwylliant o ddysgu o arferion da ac o herio gwasanaethau i gyrraedd lefel y goreuon.*

6.13 *Pennod pump: Beth yw dyfodol y gwasanaeth tân ac achub?*

*Lle y gall yr awdurdodau tân ac achub ddarparu achos busnes dros uno'n lleol, gan ddangos bod modd cyflawni arbedion effeithlonrwydd clir, dylai'r llywodraeth ganolog ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y cyfnod pontio. Nid yw'r arbedion posibl a nodir yn yr adolygiad hwn yn debygol o fod yn ddigonol i rai awdurdodau tân ac achub allu ymdopi â chyllidebau sy'n lleihau.*

*Nid yw'n debygol y bydd modd cyflawni'r holl newid sydd ei angen i drawsnewid y gwasanaeth tân ac achub drwy weithredu'n lleol yn unig. Ond ni ddylai'r awdurdodau aros am weithredu ar lefel genedlaethol cyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd niferus sydd eisoes o fewn eu cyrraedd. Byddai modd cyflawni mwy o arbedion drwy gyflwyno newidiadau ar lefel genedlaethol i hwyluso mwy o gydweithio â'r gwasanaethau golau glas eraill, gan gynnwys trefniadau i lywodraethu ar y cyd, i gydweithio ac i gydleoli gwasanaethau.*

Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban

6.14 Erbyn hyn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth yr Alban, yn hytrach na chael ei ariannu fel rhan o'r setliad llywodraeth leol. Roedd cefnogaeth drawsbleidiol gref ar gyfer yr uno. Dim ond un o'r prif bleidiau oedd yn gwrthwynebu, ac roedd y prif undebau llafur yn cefnogi'r uno. Hyd yma, mae'r uno wedi sicrhau bod modd i'r gwasanaeth leihau'r gwariant a gyllidebwyd o £290 miliwn yn 2012/13 i £277 miliwn yn 2013/14 (4.5%). Mae Llywodraeth yr Alban wedi pennu targedau heriol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach ac mae'r blaen-gynlluniau ariannol yn adlewyrchu'r targedau hyn.

# 7.0 Symud ymlaen

7.1 Y cwestiwn sylfaenol, fodd bynnag, yw hwn: beth yr ydym yn ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dyfodol? Mae angen gweledigaeth glir. Heb weledigaeth o'r fath, ac o gofio'r pwysau ariannol y mae'n ei wynebu, arbed costau fydd yn cael y prif sylw. O gael gweledigaeth glir a rennir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a'i bartneriaid, bydd modd datgloi capasiti cudd y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn ffordd sydd o fudd i'r gymdeithas gyfan. O wneud hynny, bydd modd rhoi'r gorau i ddyblygu gwaith a sicrhau gwell canlyniadau i'r cyhoedd.

7.2 Mae'r weledigaeth hon yn cael ei llunio drwy Fframwaith Cenedlaethol drafft Cymru (gyda chyfraniad gan y Prif Swyddogion Tân a chyfarfodydd y Gweinidog â'r Prif Swyddogion a'r Cadeiryddion). Bydd hyn yn helpu i bennu cyfeiriad y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol. Er enghraifft, a fydd y Gwasanaeth yn parhau i leihau'i gyllidebau wrth i'r galw leihau, neu a fydd yn defnyddio'r cyllid sydd ganddo ar hyn o bryd a'r capasiti cudd i helpu sefydliadau eraill i gyflawni'u hamcanion nhw; ac, o wneud hynny yn sicrhau budd ehangach i'r gymdeithas gan leihau'r galw?

7.3 Er enghraifft, o ymgysylltu mwy â'r gwaith o gyflawni agenda iechyd y cyhoedd, byddai modd defnyddio capasiti cudd y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn ffordd sy'n gwella diogelwch y cyhoedd. Mae'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu'n cael ei ariannu a'i ddarparu drwy fodel comisiynu iechyd y cyhoedd. Byddai modd i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyflawni rhywfaint o'r gwaith hwn gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd i wasanaeth iechyd y cyhoedd. Byddai modd defnyddio rhywfaint o'r arbedion hyn i ategu cyllidebau'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

7.4 Gallai Llywodraeth Cymru barhau i chwarae rôl allweddol o ran hwyluso'r trafodaethau hyn. Yn wir, cyfarfu'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub â'r Prif Swyddog Meddygol yn 2013 i wella'r cysylltiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae angen cael trafodaeth strategol ynghylch comisiynu o hyd, yn ddibynnol ar farn y Gweinidogion.

7.5 Gall y Gwasanaeth Tân ac Achub gyfrannu at agenda ehangach mewn meysydd eraill hefyd (heb fod arno ddyletswydd statudol i wneud hynny o reidrwydd), er enghraifft rhoi cyngor diogelwch ar y ffordd ac ymgysylltu â phobl ifanc. O wneud hynny, bydd yn parhau i gyfrannu at arbedion effeithlonrwydd ehangach ac yn gwella diogelwch ar yr un pryd. Gall trafodaethau o'r fath helpu i wella effeithlonrwydd llywodraeth leol a llywodraeth ganolog ymhellach, ond bydd angen meddwl yn greadigol ac arloesi i ddatrys problemau cymdeithasol ac ariannol cymhleth.

# 8.0 Casgliadau

8.1 Bydd rhaglen ddiwygio'r gwasanaeth tân, gyda chymorth Fframwaith Cenedlaethol newydd Cymru, yn nodi meysydd eraill i'w pwyso a'u mesur ac yn annog camau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

8.2 Yr Awdurdodau Tân sy'n dal i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub effeithiol ac effeithlon ac mae cyfle i'r rheini sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaeth helpu i lunio'r amgylchedd y bydd yn gweithredu ynddo yn y dyfodol. O drafod â'r Prif Swyddogion Tân, mae'n ymddangos bod awydd a pharodrwydd i lunio'r dyfodol.

8.3 Wrth i'r pwysau ariannol barhau i gynyddu, bydd yr angen i adolygu pob agwedd ar y gwariant hefyd yn parhau, a hynny i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Yn ddiau, bydd newidiadau i'r tirlun llywodraeth leol, yn benodol o ran llywodraethu ac effeithiau ariannol, yn effeithio ar y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Bydd angen arweiniad gwleidyddol a phroffesiynol cadarn o hyd i gynnal neu i wella'r perfformiad gan leihau costau ar yr un pryd.

8.4 Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i bennu'i disgwyliadau a bydd yn parhau i fonitro'r perfformiad, gan gydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru fel y bo'n briodol.

8.5 Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru'n defnyddio adolygiadau sy'n seiliedig ar ddulliau cyllideb sylfaenol a/neu systemau darbodus, ond mae gan wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru brofiad o ddefnyddio'r technegau hyn a gellir dysgu ganddynt.

8.6 O feincnodi'r arbedion a wnaed yn Lloegr yn erbyn yr arbedion a wnaed yng Nghymru, gwelir bod cyfradd yr arbedion yn uwch yn Lloegr. O ystyried effaith y gostyngiadau hyn ar berfformiad, mae nifer y marwolaethau a'r anafiadau yn sgil tân yn Lloegr yn dal i ostwng, hyd yn oed ar ôl cyflawni arbedion mor sylweddol.

8.7 O barhau i leihau'r galw am y gwasanaeth drwy barhau i ganolbwyntio ar waith ataliol, bydd y costau'n lleihau (o leihau nifer y troeon y mae peiriant tân yn ymateb, bydd costau staff 'ar alwad' yn lleihau a bydd costau tanwydd a chostau atodol yn lleihau).

8.8 Yn aml, mae gwahanol fodelau criwio'n caniatáu i wasanaeth addas gael ei ddarparu am gost is e.e. mae peiriant tân 'ar alwad' yn costio tua £100k y flwyddyn ond mae peiriant tân amser cyflawn yn costio swm sy'n nes at £1000k y flwyddyn. Yn amlwg, ceir oedi cyn bod modd i beiriant tân 'ar alwad' ymateb. Ond o fodelu'r trefniadau ymateb a'r gwasanaeth argyfwng yn effeithiol, bydd yn nodi i ba raddau y gellir gwneud hyn heb effeithio'n andwyol ar ddiogelwch y cyhoedd.

8.9 Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol sy’n llywio’r camau i gydweithio. Anogir y Gwasanaethau Tân ac Achub i wneud rhagor o arbedion drwy’r cyfrwng hwn. Cydnabyddir bod gwahanol Wasanaethau Tân ac Achub wedi cyrraedd gwahanol leoedd o ran cyflawni arbedion lleol. Mae’r adroddiad hwn yn helpu i’w cyfeirio at feysydd y gall fod yn werth iddynt eu hystyried oherwydd bydd y pwysau ariannol yn parhau i fynnu eu bod yn meddwl yn wahanol ac yn rhoi atebion gwahanol ar waith.

## 9.0 Casgliadau

9.1 Dylai Fframwaith Cenedlaethol Cymru fynegi'n glir y weledigaeth a'r disgwyliadau ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yn y dyfodol. Bydd gofyn cydweithio ag eraill i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

9.2 Dylai prosiect diwygio'r gwasanaeth tân, sydd bellach wedi'i wreiddio yn rhaglen Fframwaith Cenedlaethol Cymru, o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, barhau i fod yn gyfrwng i amlinellu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys ystyriaethau gwerth am arian.

9.3 Dylid annog y Pwyllgor Materion Cenedlaethol i barhau i gyflawni arbedion. O wneud hynny, bydd yn cynorthwyo'r tri Awdurdod Tân ac Achub yn uniongyrchol i wynebu dyfodol ariannol a fydd yn gynyddol heriol.

9.4 Mae'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn defnyddio'r adroddiad hwn i lywio trafodaethau â phob un o'r Prif Swyddogion Tân, gan gofio mai mater i'r Awdurdodau Tân ac Achub yw pennu'r gyllideb a'r trefniadau gweithredol.

# Awdurdodau Tân ac Achub Cymru – Arbedion Effeithlonrwydd Manwl

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Arbedion rhwng 2011/12 a 2014/15

Yn gryno, gwnaed arbedion ar draws y Gwasanaeth cyfan, ond mewn ffordd a fyddai'n sicrhau eu bod yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd.

**Yn 2011/12 (Blwyddyn 1)**

Torrwyd £200,000 o linellau gwariant drwy eu dirwyn i ben yn llwyr neu gwtogi arnynt.
Torrwyd £50,000 o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
Torrwyd £90,000 o'r gyllideb Staff Cymorth.
Torrwyd £460,000 o'r gyllideb Rheoli Gweithredol drwy leihau nifer y swyddogion.
Torrwyd £30,000 o'r gyllideb Rheoli drwy ailstrwythuro'r trefniadau staffio.

**Yn 2012/13 (Blwyddyn 2)**

Cafodd llinellau gwariant eu dileu neu'u cwtogi eto, gan ryddhau £150,000 arall.
Torrwyd £50,000 arall o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
Torrwyd £90,000 arall o'r gyllideb Staff Cymorth.
Rhyddhawyd £500,000 o'r gyllideb Diffoddwyr Tân Gweithredol drwy newid y ffordd y caiff amserlenni sifftiau eu trefnu, gan leihau nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn sydd eu hangen 10%.

**Yn 2013/14 (Blwyddyn 3)**

Cafodd llinellau gwariant eu dileu neu'u cwtogi am y trydydd tro, gan ryddhau £70,000 arall.
Torrwyd £50,000 arall o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
Torrwyd £180,000 arall o'r gyllideb Staff Cymorth.
Rhyddhawyd £500,000 o'r gyllideb Diffoddwyr Tân Gweithredol drwy newid y ffordd y caiff amserlenni sifftiau eu trefnu (fel uchod).

**Yn 2014/15 (Blwyddyn 4)**

Ategwyd y gyllideb ar sail untro drwy ddefnyddio credydwr o £800,000 nad oedd ei angen mwyach a £100,000 o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a £100,000 o'r ddarpariaeth ar gyfer cynnydd yn y cyfraddau llog.

**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – newid ffurf**

Cyllideb refeniw flynyddol 2010/11 £72.2m, cyllideb refeniw flynyddol 2014/15 £69.9m; gostyngiad ariannol o dros 3%. O'i feincnodi yn erbyn y 10 awdurdod sy'n rhan o'r gwasanaeth, bu i'w cyllideb refeniw gynyddu 0.2% dros yr un cyfnod. Eleni, mae ein cyllideb refeniw flynyddol fel ag yr oedd yn 2008/09.

Mae cyllideb refeniw 2014/15 yn gyfwerth â 91c y person yr wythnos.

O'i meincnodi yn erbyn ffigurau chwyddiant, dylai'r gyllideb refeniw flynyddol fod oddeutu £78.3m, sef gostyngiad o dros 10% mewn termau real. Mae'r gwasanaethau Tân ac Achub wedi wynebu chwyddiant sy'n uwch na ffigurau cyfartalog y DU.

Mae codiad cyflog o 1% yn gyfystyr â chynnydd o £1/2m yn y gyllideb, yswiriant o dros £800k, costau tanwydd o £600k a chostau cynnal cerbydau o dros £650k.

Cyflwynwyd cynllun cyflogau'r system ar ddyletswydd yn ôl galw dros 10 mlynedd yn ôl, ac mae'r argaeledd hysbys a'r argaeledd wedi'i ddatgan yn gyson dros 95%. Cyllideb y system ar ddyletswydd yn ôl y galw (2014/15) yw £6.3m.

O dan ganllawiau blaenorol LlC yn y Cynllun Lleihau Risg (2007-2010), newidiwyd pedair gorsaf wedi'u criwio yn ystod y dydd yn orsafoedd ar ddyletswydd yn ôl y galw a newidiwyd un orsaf wedi'i chriwio yn ystod y dydd yn orsaf amser cyflawn, gan arbed dros £600k.

Yn 2011/12 newidiwyd y trefniadau criwio ym mhob gorsaf amser cyflawn pan gyflwynwyd trefniadau amserlennu hyblyg gan arbed bron i £1.5m.

Cynhaliwyd adolygiad gweithredol o'r rheolwyr tactegol ac, yn 2011/12, lleihawyd nifer y rheolwyr grŵp gan arbed dros £300k.

Cynhaliwyd adolygiad o griwiau gweithredol yr holl beiriannau eilaidd ac, yn 2012-14, lleihawyd nifer y criwiau i bedwar gan arbed dros £600k.

Yn sgil adolygiad o'r rheolwyr goruchwylio a'r rheolwyr canol, mae ein cyllideb wedi gostwng dros £350k rhwng 2011-14.

Yn sgil adolygiad strategol, lleihawyd nifer y Rheolwyr Brigâd o 7 i 5 yn 2009/10 a lleihawyd nifer y Rheolwyr Ardal o 6 i 4.

Ar ôl adolygu'r trefniadau goramser, cafwyd gostyngiad o £600k yn y llinell wariant hon.

Ar ôl adolygu'r trefniadau achub technegol, caewyd ein gorsaf ymateb technegol a rhannwyd y gallu ar draws ein gorsafoedd tendrau achub, gan arbed dros £700k.

Ar ôl adolygu'r peiriannau arbennig, llwyddwyd i arbed dros £400k rhwng 2013-15.

Yn 2013/14, unwyd dwy orsaf yn Aberbargoed gan gael gwared ar un peiriant ar ddyletswydd yn ôl y galw ac arbed dros £200k.

Adolygiad seiliedig ar risg oedd yr Adolygiad Cwmpasiad Tân a gynhaliwyd yn 2013/14. Daeth i'r casgliadau a ganlyn:

- Uno Mynydd Cynffig a Phorthcawl – prosiect parhaus i brynu tir priodol a fydd yn arbed dros £200k pan gaiff ei gyflawni.
- Newid y trefniadau criwio yn y Bont-faen o griw yn ystod y dydd i'r system dyletswydd yn ôl y gofyn, gan arbed £500k.
- Newid trefniadau criwio peiriant eilaidd y Barri i'r system dyletswydd yn ôl y gofyn – prosiect parhaus i recriwtio ac i hyfforddi criw newydd ar gyfer y system dyletswydd yn ôl y gofyn cyn cynllunio'r prosiect. Disgwylir arbed tua £800k.

- Penderfynodd yr Awdurdod Tân gau gorsaf tân ac achub Blaenau gan arbed dros £200k. Oherwydd y posibilrwydd o ddiswyddiadau gorfodol, mae proses ar waith i ymgysylltu ac ymgynghori'n lleol.
- Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub gael gwared ar beiriant y system dyletswydd yn ôl y gofyn yng Nghwmbrân gan arbed £180k. Oherwydd y posibilrwydd o ddiswyddiadau gorfodol, mae proses ar waith i ymgysylltu ac ymgynghori'n lleol.
- Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub gau gorsaf tân ac achub y Porth gan arbed £180k. Oherwydd y posibilrwydd o ddiswyddiadau gorfodol, mae proses ar waith i ymgysylltu ac ymgynghori'n lleol.

Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus – mae Gwasanaeth De Cymru a Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n uno'u hystafelloedd rheoli ac yn symud ar y cyd i Bencadlys Heddlu De Cymru. Y gobaith yw y bydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru hefyd yn ymuno â ni. Cafwyd benthyciad o £3m o gronfa buddsoddi i arbed LlC ar gyfer y prosiect .

Aethpwyd ati i leihau nifer y personél rhwng 2008 a 2013 – staff cymorth 90 (22%) (cyfwerth ag amser llawn), dileu 75 (10%) o swyddi amser cyflawn mewn gorsafoedd a dileu 22 (15%) o swyddi amser cyflawn heb fod mewn gorsafoedd.

Rydym wedi creu rhaglen o'r enw 'Llunio ein Dyfodol' i adolygu'r hyn yr ydym yn ei wneud, pam yr ydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Rydym yn cyflawni adolygiad sylfaenol o bob swyddogaeth, p'un a oes dyletswydd statudol arnom i ddarparu'r gwasanaeth ai peidio. Rydym yn ymgysylltu â'r holl bersonél ar draws y Gwasanaeth ac, os byddwn yn penderfynu parhau i ddarparu'r gwasanaeth, byddwn yn defnyddio dull system ddarbodus i sicrhau bod y system a'r broses mor effeithlon â phosibl.

Rydym wedi sicrhau gostyngiad o 32% yn nifer y digwyddiadau gweithredol dros y deg mlynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o 44% yn nifer y tanau bwriadol, gostyngiad o 60% yn nifer y tanau'n gyffredinol, gostyngiad o 52% yn nifer yr anafiadau yn sgil tân mewn annedd a gostyngiad o 50% yn nifer y marwolaethau damweiniol yn sgil tân. Cafwyd ychydig o gynnydd yn nifer yr ymatebion i ddamweiniau traffig ar y ffordd a'r ymatebion i alwadau am wasanaethau arbennig dros yr un cyfnod.

Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi sicrhau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd o dros £5m, a'r rheini'n rhai ariannol ac anariannol fel yr adroddwyd eisoes.

Hyd yma, mae gweithredu diwydiannol wedi costio oddeutu £1.4m, gan gynnwys costau recriwtio a hyfforddi personél y Weinyddiaeth Amddiffyn a phersonél atodol.

**Arbedion Effeithlonrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2005-2014**

Rhwng 2005-2014, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £6.4 miliwn – tua 15% o'i gyllideb gyfan.

Cyflawnwyd yr arbedion effeithlonrwydd hyn drwy newid y ffordd y mae rhai o'n gorsafoedd yn cael eu criwio a thrwy fireinio ein gweithdrefnau a'n prosesau busnes. Hyd yma, nid yw'r newidiadau hyn wedi effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir gennym ac rydym wedi lleihau nifer y staff drwy drosiant naturiol.

Fodd bynnag, er mwyn bodloni setliad cyfartalog y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 2015/16, rydym yn amcangyfrif bod angen i ni arbed £2.5 miliwn arall. I gyflawni'r arbedion hyn, bydd angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd. Nid oes unrhyw amheuaeth y byddant yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir gennym os cânt eu rhoi ar waith yn llwyr.

Dyma grynodeb o'n harbedion hyd yma:

**Arbedion effeithlonrwydd o ran criwiau'r gorsafoedd 2005 – 2014**

**Hwlffordd**
Drwy gyflwyno system griwio yn ystod y dydd yn 2007, bu modd dileu 27 swydd o'r sefydliad. Er bod y newid hwn wedi achosi oedi o 5 munud o ran yr amseroedd ymateb yn y nos, rydym wedi cynnal y safonau blaenorol heb fawr ddim newid i'r gwasanaeth gweithredol a ddarperir gennym, neu ddim newid o gwbl.

**Pontardawe**
Drwy gyflwyno system griwio hunanamserlennu yn 2009/10, bu modd dileu 14 swydd o'r sefydliad. Roedd y newidiadau criwio hefyd yn gyfle i sefydlu Uned Dechnegol Achub â Rhaffau yn yr orsaf. Nid yw wedi lleihau'r ymateb gweithredol na'r gwasanaeth a ddarperir.

**Llanelli a Threforys**
Drwy gyflwyno cyfarpar uwch ar gyfer gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd ar bob prif beiriant yn 2011, bu modd cael gwared ar Dendrau Brys mewn dau leoliad a bu modd dileu 12 swydd ym mhob un o'r gorsafoedd hyn. Arweiniodd hyn at gynnydd o ran yr ymateb gweithredol a'r gwasanaeth a ddarperir.

**Gorsafoedd â chriwiau yn ystod y dydd**
Drwy gyflwyno amserlenni mwy effeithlon mewn gorsafoedd â chriwiau yn ystod y dydd yn 2010/11, bu modd dileu 6 swydd heb leihau'r ymateb gweithredol na'r gwasanaeth a ddarperir.

**Y Wylfa Aur**
Drwy wneud defnydd mwy effeithiol o'r staff rheoli er mwyn cyflawni gweithgareddau diogelwch cymunedol, bu modd dirwyn 'y Wylfa Aur' i ben yn 2010/11 – mae tîm o 4 diffoddwr tân sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd gweithredol yn cyflawni gweithgareddau diogelwch cymunedol yng nghanol Abertawe.

**Llanelli**

Drwy gyflwyno system griwio hunanamserlennu yn 2013, bu modd dileu 14 swydd heb leihau'r ymateb gweithredol na'r gwasanaeth a ddarperir.

**Dilëwyd 102 o swyddi mewn gorsafoedd (20%) o'r sefydliad ers 2005. Fodd bynnag, cafodd yr holl arbedion effeithlonrwydd hyn eu cyflawni heb leihau'r gwasanaeth a ddarperir o gwbl neu fawr ddim.**

**Cytunwyd ar newidiadau criwio pellach yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe a fydd yn dileu 35 swydd arall o'r sefydliad (gan gyflawni gostyngiad o dros 27% drwyddi draw).**

**Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd ar sail trefniadau criwio gorsafoedd hyd yma: £2,965,000**

**<u>Arbedion effeithlonrwydd eraill 2005 -2014</u>**

Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd eraill drwy leihau nifer y staff canolog a thrwy newid prosesau a gweithdrefnau busnes.

**Lleihau nifer y staff**

Adolygu ac ailstrwythuro'r swyddogaethau cymorth canolog, gan gynnwys:

Newid strwythurau'r uwch reolwyr a lleihau nifer y staff yn sgil y newid hwnnw yn 2010/11.
Newid nifer staff yr ardaloedd rheoli a'r strwythurau gweithredol yn 2010/11.
Adleoli'r staff a oedd yn weddill i gampws y Pencadlys yn 2011.
Hwyluso ymddeoliadau cynnar staff cymorth ym mis Mawrth/Ebrill 2014.

Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd hyd yma: £1,391,000

(Sylwer bod naw swydd arall wedi'u clustnodi yn y sefydliad a fydd yn cael eu dileu pan fyddant yn dod yn wag.)

**Gwella prosesau busnes**

Adolygu a diwygio'r ffordd y mae'r sefydliad yn cyflawni busnes, gan gynnwys:

Yn 2008, cwblhawyd ymarfer arbedion effeithlonrwydd drwy gyflawni adolygiad cynhwysfawr o bob llinell wariant, a bu holl Aelodau'r Awdurdod Tân yn rhan o'r broses o'i ddatblygu ac o graffu ar y canlyniadau.
Yn 2009/10, bu tîm penodol yn cyflawni adolygiad sylfaenol a manwl o bob adran, strwythur a pholisi, a hynny drwy Raglen Adolygu Gwasanaethau a gymerodd oddeutu 18 mis.

Arweiniodd y rhain at arbedion sylweddol, gan gynnwys rhai o'r camau i gwtogi ar nifer y staff y soniwyd amdanynt eisoes. Arweiniodd hefyd at arbedion effeithlonrwydd eraill fel lleihau cyflenwadau a gwasanaethau, lleihau goramser, lleihau nifer y ceir ar brydles, ynghyd â llawer o arbedion eraill.

<u>Yn ogystal</u>, cyflawnwyd nifer o adolygiadau gweithredol technegol sydd wedi arwain at newidiadau a gweithrediadau mwy effeithlon:

Cyfarpar cyfalaf – cael Platfformau Achub Awyrol Cyfun yn lle Ysgolion Trofwrdd; cael gwared ar Gludyddion Dŵr; cael Pympiau Ymateb Gwledig yn lle'r peiriannau eilaidd; disodli cerbydau arbenigol, adolygu Podiau, disodli cerbydau T4P.
Cyd-leoli gwasanaethau gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r Heddlu yng Nghaerfyrddin, Llandrindod, Abertawe a Hwlffordd.
Gwella'r prosesau caffael a rheoli stoc.
Mae nifer sylweddol o fentrau cydweithredol ar waith a bydd y rhain yn cynyddu drwy ffrydiau gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.
Ar ôl adolygu'r polisi ymateb yn awtomatig i larymau tân a'r polisi achub anifeiliaid, lleihawyd nifer yr ymatebion diangen / dieisiau gan griwiau gweithredol.

Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd hyd yma: £2,076,000

**Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd 'eraill' hyd yma: £3,467,000**